Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Templed ar gyfer llunio datganiad o ddiben

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Mawrth 2026**

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2020 WG38348 ISBN Digidol 978-1-83876-592-7

## Templed ar gyfer llunio datganiad o ddiben

O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

| Adran 1: Gwybodaeth am y darparwr | |
|---|---|
| **Darparwr y Gwasanaeth** | *Rhowch enw'r darparwr cofrestredig* |
| **Cyfeiriad darparwr y gwasanaeth** | • *Os yw'r ymgeisydd yn sefydliad, rhowch gyfeiriad prif swyddfa neu swyddfa gofrestredig y sefydliad*<br>• *Os yw'r ymgeisydd yn unigolyn, rhowch gyfeiriad yr unigolyn ar gyfer gohebiaeth;* |
| **Endid cyfreithiol** | Unigolyn ☐ |
| | Cwmni Cyfyngedig ☐<br>Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus ☐<br>Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig ☐<br>Corff Corfforaethol Arall ☐ |
| | Pwyllgorau ☐<br>Ymddiriedolaeth Elusennol ☐<br>Corff anghorfforedig arall ☐ |
| | Awdurdod Lleol ☐ |
| | Bwrdd Iechyd Lleol ☐ |
| | Partneriaeth ☐ |
| **Drwy ddewis un o'r pedwar model hwn, rydych chi'n datgan eich bod yn un o'r pedwar model 'nid-er-elw' a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru** | Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau ☐ |
| | Sefydliad corfforedig elusennol ☐ |
| | Cymdeithas budd cymunedol elusennol ☐ |

| | |
|---|---|
| | |
| | Cwmni buddiant cymunedol ☐<br>cyfyngedig drwy warant heb<br>gyfalaf cyfrannau |
| **Unigolyn Cyfrifol** | *Rhowch enw'r person a ddynodwyd fel yr unigolyn cyfrifol* |
| **Rheolwr y gwasanaeth** | *Rhowch enw'r person a fydd yn rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.* |
| **Enw'r Gwasanaeth** | *Rhowch enw'r gwasanaeth* |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | *Rhowch gyfeiriad y lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu neu gyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ohoni neu ohonynt.* |
| **Cyfeiriadau perthnasol eraill (cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoliadau oedolion a gwasanaethau eirioli yn unig)** | *Rhowch fanylion cyfeiriadau unrhyw swyddfa neu swyddfeydd eraill, a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth.* |

| Adran 2: Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth | |
|---|---|
| **a) Gwasanaethau Llety**<br>*Dylai'r adran hon gynnwys ble mae'r gwasanaeth wedi'i leoli a disgrifiad o'r ardal, y cyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi ystod anghenion y bobl y mae'r gwasanaeth wedi'i fwriadu ar eu cyfer fel y disgrifir yn adran 3.* | |
| **b) Gwasanaethau cymorth cartref**<br>*Yr ardal bartneriaeth ranbarthol y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddi. Cyfeiriwch at y canllaw Datganiadau o Ddiben i gael manylion llawn pob ardal bartneriaeth ranbarthol.* | |
| ***(ticiwch yr ardal y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ynddi)*** | |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent** | ☐ |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru** | ☐ |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro** | ☐ |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Morgannwg** | ☐ |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg** | ☐ |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Cymru** ☐ | |
| **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys** | ☐ |
| **c) Gwasanaethau mabwysiadu, maethu, lleoliadau oedolion ac eirioli**<br>*Bydd hwn yn rhoi disgrifiad o'r ardal y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer, h.y. Cymru gyfan* | |

## Adran 3: Yr amrywiaeth o anghenion sydd gan yr unigolion y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu iddynt

**a) Yr amrywiaeth o anghenion y gallwn eu cefnogi**

***Gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref.*** *Yn yr adran hon, dylech ddisgrifio'r amrywiaeth o anghenion iechyd neu ofal y bydd y gwasanaeth yn darparu cymorth ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol/darpariaeth gofal. Yn ogystal, rhowch fanylion y gofal a'r cymorth y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig ac i bwy*

***Gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoliadau oedolion ac eirioli.*** *Yn yr adran hon, disgrifiwch yr amrywiaeth o anghenion y gall y gwasanaeth eu cefnogi, er enghraifft, cyn paru ac ar ôl paru â darpar fabwysiadwr a/neu fabwysiadwr, rhiant maeth neu ofalwr lleoliadau oedolion. Ar gyfer gwasanaeth eirioli, disgrifiwch yr amrywiaeth o anghenion eirioli y gall y gwasanaeth eu cefnogi.*

*Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio'r amrywiaeth o anghenion y gall eich gwasanaeth eu diwallu. Bydd angen i'ch gwasanaeth fod yn hyblyg ac felly mae'n bosibl na fydd yn diwallu'r holl anghenion hyn drwy'r amser. Mae hyn oherwydd bod anghenion pobl yn newid a bydd angen i'r gwasanaethau allu addasu wrth ymateb e.e. pobl oedrannus sy'n dod yn gynyddol eiddil y gallai fod ganddynt amrywiaeth eang o anghenion newidiol gan gynnwys gofal lliniarol tuag at ddiwedd eu hoes.*

| **b) Yr ystod o anghenion** | *Nodwch yr ystod oedran* |
|---|---|
| **Cartref gofal i blant** | ☐ Egwyliau byr a seibiant.<br>☐ Gofal nyrsio i blant.<br>☐ Gofal a chymorth i blant<br>☐ Gofal a chymorth i blant gyda rhai oedolion iau (hyd at 25 mlwydd oed).<br>☐ Plant ag anghenion iechyd meddwl. |
| **Cartref gofal i oedolion**<br>**Gydag anghenion gofal nyrsio? Oes neu nac oes?** | ☐ Gofal i oedolion (â gofal nyrsio).<br>☐ Gofal i oedolion (heb ofal nyrsio)<br>☐ Gofal i oedolion ifanc gyda rhai plant (hyd at 25 mlwydd oed).<br>☐ Pobl sy'n byw gyda dementia.<br>☐ Pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu.<br>☐ Pobl ag anghenion iechyd meddwl.<br>☐ Pobl ag anabledd corfforol. |

| | |
|---|---|
| | ☐ Pobl y mae angen egwyl fer neu seibiant arnynt. |
| **Gwasanaethau Cymorth Cartref.** | ☐ Gofal a chymorth i oedolion.<br>☐ Gofal a chymorth i blant.<br>☐ Byw â chymorth. |
| **c) Rhywedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth** | *Nodwch rywedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth* |
| **d) Gwasanaethau seiliedig ar lety yn unig** | **Uchafswm Capasiti**<br>*Nodwch nifer y bobl a all ddefnyddio'r gwasanaeth, er enghraifft mewn lleoliad preswyl, uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya.* |
| **e) Gwasanaethau cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoliadau oedolion ac eirioli yn unig.** | *Nodwch nifer y plant a/neu'r oedolion a gefnogir gan y gwasanaeth ar gyfartaledd.* |
| **f) Gwasanaethau cymorth cartref yn unig** | **Nifer yr Oriau Gofal a ddarperir**<br>*Nodwch nifer yr oriau gofal a ddarperir bob wythnos ar gyfartaledd. (ticiwch y blwch perthnasol)*<br>**0-250** ☐<br>**251-500** ☐<br>**501-750** ☐<br>**751-1000** ☐<br>**1001-1500** ☐<br>**1501-2000** ☐<br>**2001-3000** ☐<br>**3000+** ☐ |

## Adran 4A: Sut y darperir y gwasanaeth (gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref yn unig)

*Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut rydych yn sicrhau'r canlynol:*

1. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol - caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. *Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau.*
2. Mae'r bobl yn cael cymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu i'w llawn botensial, gan gynnwys mynediad at addysg, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. *Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny.*
3. Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu.
4. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol.

*(ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)*

*Dylech ddisgrifio sut y byddwch yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl ac yn rhoi gofal a chymorth mewn ffordd sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal eu hannibyniaeth, eu diogelwch a'u llesiant. Os ydych wedi dweud bod gofal arbenigol yn cael ei gynnig, rhaid i chi ddefnyddio'r adran hon i nodi beth sy'n ei wneud yn wasanaeth arbenigol. Dylech gynnwys manylion unrhyw fodelau gofal penodol sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth a chyfraniad unrhyw asiantaethau arbenigol allanol a fydd yn rhoi help a chymorth mewn meysydd arbenigedd.*

*Dylai'r adran hon hefyd gynnwys y canlynol:*

**a)** Trefniadau ar gyfer derbyn, asesu, cynllunio ac adolygu gofal y bobl

- *Trefniadau ar gyfer rheoli derbyniadau wedi'u cynllunio, derbyniadau brys a derbyniadau seibiant*
- *Trefniadau ar gyfer cynnal asesiad cychwynnol ac asesiadau parhaus o anghenion gofal a chymorth*
- *Sut bydd y cynllun personol yn cael ei ddatblygu a'i adolygu drwy ymgynghori â'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth a/neu ei gynrychiolydd*

**b)** Safon y gofal a'r cymorth

*Bydd angen i hyn, pan fo'n briodol, ddisgrifio sut bydd y gwasanaeth yn cynorthwyo pobl i wneud y canlynol:*

- *bod mor iach â phosibl o safbwynt corfforol, meddyliol ac emosiynol.*
- *bod yn ddiogel.*
- *cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau neu ddiddordebau unigol.*
- *cael cyfleoedd addysg, dysgu a datblygu.*
- *meddu ar reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd, a lle y bo'n berthnasol, ymgymryd â gwaith.*
- *cynnal eu hunaniaeth ieithyddol, ddiwylliannol a/neu grefyddol.*
- *cynnal cydberthnasau teuluol a phersonol; a datblygu eu potensial, dysgu ac ymarfer sgiliau bywyd.*

**c)** Anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

*Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer y cynnig Cymraeg (Pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig rhagweithiol).*

## Adran 4B: Sut y darperir y gwasanaeth (gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu a gwasanaethau lleoliadau oedolion yn unig)

*Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut rydych yn sicrhau'r canlynol:*

5. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol - caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. *Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau.*
6. Mae'r bobl yn cael cymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu i'w llawn botensial, gan gynnwys mynediad at addysg, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. *Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny.*
7. Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu.
8. *Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol* ***(ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)***

*Dylech ddisgrifio sut y byddwch yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl ac yn helpu darpar fabwysiadwyr a/neu fabwysiadwyr, rhieni maeth a gofalwyr lleoliadau oedolion i ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal annibyniaeth, diogelwch a llesiant y bobl hynny.*

*Dylai'r adran hon hefyd gynnwys y canlynol:*

**a)** Trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu gofal a chymorth y bobl[1]

- *Trefniadau ar gyfer ystyried addasrwydd y gwasanaeth ac unrhyw asesiadau parhaus o anghenion gofal a chymorth (fel y bo'n ofynnol)*
- *Sut bydd cynllun personol yr unigolyn ar gyfer gwasanaeth lleoliadau oedolion, yn cael ei ddatblygu a'i adolygu drwy ymgynghori â'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, a/neu ei gynrychiolydd*
- *Sut mae'r gwasanaeth maethu neu'r gwasanaeth mabwysiadu yn cyfrannu at gynllun gofal a chymorth yr unigolyn a'r cynllun mabwysiadu/lleoli.*

[1] Ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, mae cyfeiriadau at 'gofal a chymorth' yn golygu 'cymorth'.

| |
|---|
| **b)** Safon y gofal a'r cymorth<br>*Lle y bo'n briodol, bydd angen i hyn ddisgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn helpu darpar fabwysiadwyr a/neu fabwysiadwyr, rhieni maeth a gofalwyr lleoliadau oedolion i roi gofal a chymorth i'r bobl sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal eu diogelwch a'u llesiant ac yn cynnal eu credoau ieithyddol, diwylliannol a/neu grefyddol.* |
| **c)** Anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth<br>*Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer y cynnig Cymraeg (Pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig rhagweithiol).* |

## Adran 4C: Sut y darperir y gwasanaeth (gwasanaethau eirioli yn unig)

*Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut rydych yn sicrhau'r canlynol:*

**d)** Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol - caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau.

**e)** Mae'r bobl yn cael cymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu i'w llawn botensial, gan gynnwys mynediad at addysg, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny.

**f)** Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu.

**g)** Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)

*Dylech ddisgrifio sut y byddwch yn helpu plant i ddiwallu eu hangen am eiriolaeth.*

*Dylai'r adran hon hefyd gynnwys y canlynol:*

**a)** Trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu eiriolaeth plant

- *Trefniadau ar gyfer ystyried addasrwydd y gwasanaeth*
- *Sut bydd cynllun eiriolaeth y plentyn yn cael ei ddatblygu a'i adolygu drwy ymgynghori â'r plentyn sy'n cael eiriolaeth a/neu ei gynrychiolydd*

**b)** Safonau gwasanaeth

*Lle y bo'n briodol, mae angen i hyn ddisgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn sicrhau y caiff eiriolaeth ei darparu mewn ffordd sy'n galluogi plant i gyflwyno eu safbwyntiau ac i gael y safbwyntiau hynny wedi'u cynrychioli; ac sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal diogelwch a llesiant plant. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y gwasanaeth yn cynnal credoau ieithyddol, diwylliannol a/neu grefyddol y plentyn. Dylai'r darparwr hefyd nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gael cyngor neu gymorth cyngor cyfreithiol neu arbenigol arall mewn achosion lle bydd angen hynny ar blentyn.*

**c)** Anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

*Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r plant, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer y cynnig Cymraeg (Pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig rhagweithiol).*

## Adran 5: Trefniadau staffio

*Mae angen i'r adran hon ddisgrifio sut mae'r trefniadau staffio yn briodol ar gyfer yr amrywiaeth o anghenion a'r gwasanaethau arbenigol i'w darparu, fel y disgrifiwyd yn adran 3.*

*Dylai ddangos sut y bydd staff yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal dibynadwy a diogel i unigolion.*

*Dylai hyn gynnwys y canlynol:*

**a) Nifer yr aelodau o staff a'u cymwysterau**

*Dylai'r adran hon gynnwys nifer y staff canlynol a'u cymwysterau (lle y bo'n berthnasol i'r gwasanaeth):*

- *y rheolwr a'i gymwysterau penodol.*
- *y dirprwy reolwr a'i gymwysterau penodol.*
- *staff goruchwylio eraill a'u cymwysterau penodol.*
- *nyrsys cofrestredig a natur eu cofrestriad e.e. RGN, RMN, RNLD ac ati.*
- *uwch-aelodau o staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol a disgrifiad o lefelau eu cymwysterau h.y. lefel 2/3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau**;*
- *aelodau eraill o staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol a disgrifiad o lefelau eu cymwysterau h.y. lefel 2/3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau** a*
- *mathau eraill o staff cymwys nad ydynt wedi'u rhestru uchod a disgrifiad o lefelau eu cymwysterau.*

*Lle caiff gofal arbenigol e.e. dementia, gofal lliniarol ac ati ei ddarparu, rhaid i chi allu dangos cymwysterau, hyfforddiant a sgiliau'r staff i ddarparu'r gofal arbenigol hwn.*

| | | |
|---|---|---|
| | | *Dylai'r nifer o aelodau staff sy'n ofynnol fod yn ddigon i ddiwallu anghenion rota nodweddiadol mewn ffordd gynaliadwy a dibynadwy.*<br><br>***Yn achos gwasanaeth cymorth cartref, mae'n bosibl yr hoffech ddarparu cyfanswm nifer y staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn wythnos arferol, cyfanswm nifer yr oriau staff bob wythnos a disgrifiad o lefelau eu cymwysterau h.y. lefel 2/3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau*<br><br>****Yn achos gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoliadau oedolion ac eirioli, mae'n bosibl yr hoffech ddarparu cyfanswm nifer y staff gofal cymdeithasol a gyflogir a disgrifiad o lefelau eu cymwysterau h.y. lefel 2/3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau* |
| **b)** | **Lefelau staff (ar gyfer gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref yn unig)** | ***Gwasanaethau seiliedig ar Lety.*** *Dylai'r adran hon gynnwys y lefelau staffio a fydd ar waith fel arfer yn ystod y dydd a'r nos, sef nifer y staff y bydd y gwasanaeth yn bwriadu eu defnyddio o ddydd i ddydd h.y. y rota nodweddiadol*<br><br>• *Mewn gwasanaethau cartrefi gofal lle asesir bod angen gofal nyrsio 24 awr ar unigolion (oherwydd dwyster, cymhlethdod a/neu aciwtedd eu hanghenion), dylai'r adran hon ddisgrifio nifer y nyrsys cofrestredig a fydd yn gweithio yn y gwasanaeth bob amser.*<br><br>***Gwasanaethau cymorth cartref.*** *Dylai'r adran hon gynnwys y lefelau staffio a fydd ar waith fel arfer yn ystod y dydd, sef nifer y staff y bydd y gwasanaeth yn bwriadu eu defnyddio o ddydd i ddydd h.y. y rota nodweddiadol ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref.* |
| **c)** | **Staff arbenigol** | *Yn yr adran hon, cofnodwch unrhyw staff arbenigol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, gan nodi eu nifer a'u manylion.* |
| **d)** | **Y defnydd o staff yn y gwasanaeth (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)** | *Yn yr adran hon, disgrifiwch sut y bydd y staff yn cael eu defnyddio ar draws yr amgylchedd gofal / dyluniad a chynllun y llety er mwyn goruchwylio a diwallu anghenion yr unigolion hynny. Mae hyn yn hynod bwysig ar gyfer safleoedd aml-lawr neu aml-adeilad.*<br><br>*Wrth ddisgrifio lefelau staffio, gall fod gennych niferoedd neu gymarebau sefydlog. Dylech esbonio* |

| | |
|---|---|
| | *sut y caiff lefelau dibyniaeth eu hystyried wrth wneud eich penderfyniad.*<br>*Mae'n bosibl yr hoffech ddangos strwythur y staff ar ffurf diagram.* |
| **e) Trefniadau ar gyfer tasgau wedi'u dirprwyo (ar gyfer gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref yn unig)** | *Yn yr adran hon, nodwch y trefniadau llywodraethu ar gyfer dirprwyo unrhyw dasgau gofal arbenigol neu benderfyniadau.*<br>*Dangoswch sut y bydd staff yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal dibynadwy a diogel i unigolion.* |
| **f) Trefniadau goruchwylio** | *Yn y rhan hon, nodwch y trefniadau goruchwylio a chymorth.* |
| **g) Hyfforddiant staff** | *Yn y rhan hon, nodwch y rhaglen hyfforddi staff.* |
| **h) Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig** | *Dylid cynnwys disgrifiad o'r ffordd y caiff y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth preswyl eu cydgysylltu e.e. unrhyw gyd-ddibyniaeth rhwng timau staff, lleoliad yr ysgol mewn perthynas â'r llety preswyl, unrhyw drefniadau eraill a rennir ac ati* |

## Adran 6: Cyfleusterau a gwasanaethau

**Gwasanaethau seiliedig ar lety yn unig**

*Yn yr adran hon, dylech ddisgrifio y dyluniad, y cynllun, y cyfleusterau a/neu'r cyfarpar sydd ar gael a sut maent yn cefnogi amrywiaeth anghenion y bobl y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer, yn unol â'r disgrifiad yn adran 3 uchod. Os oes unrhyw nodweddion unigryw neu benodol yn gysylltiedig â'r elfennau hyn, dylech eu disgrifio yma.*

***D.S.*** *Nid yw'r adran hon yn berthnasol i drefniadau byw â chymorth.*

***Dylech ddarparu gwybodaeth am y canlynol:***

| | |
|---|---|
| **a) Nifer yr ystafelloedd gwely sengl a'r ystafelloedd a rennir** | *Nodwch nifer yr ystafelloedd gwely sengl a'r ystafelloedd a rennir* |
| **b) Nifer yr ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en suite** | *Nodwch nifer yr ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en suite* |
| **c) Nifer yr ardaloedd bwyta** | *Nodwch nifer yr ardaloedd bwyta* |
| **d) Nifer yr ardaloedd cymunedol** | *Nodwch nifer yr ardaloedd cymunedol* |
| **e) Cyfleusterau ymolchi arbenigol** | *Nodwch y cyfleusterau ymolchi arbenigol yn y gwasanaeth hwn* |
| **f) Cyfarpar arbenigol** | *Nodwch y cyfarpar arbenigol yn y gwasanaeth hwn* |
| **g) Y trefniadau diogelwch sydd ar waith a'r defnydd o deledu cylch cyfyng (CCTV)** | *Nodwch y trefniadau Diogelwch sydd ar waith a'r defnydd o deledu cylch cyfyng (CCTV)* |
| **h) Mynediad i ardaloedd a chyfleusterau awyr agored yn y gwasanaeth hwn** | *Yn yr adran hon, disgrifiwch yr ardaloedd a'r cyfleusterau awyr agored sydd ar gael a sut gall y bobl eu defnyddio*<br>*Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio sut mae'r amgylchedd a'r cyfleusterau yn helpu pobl ag amhariadau i gael bywyd mor llawn â phosibl ac i allu mynd i bob rhan o'r cartref a'r ardal o'i amgylch.* |

**Gwasanaethau cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoliadau oedolion ac eirioli yn unig**

*Yn yr adran hon, dylech wneud y canlynol:*

- *rhoi gwybodaeth am y cyfleusterau i: storio cofnodion yn ddiogel.*
- *cyfarfod ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.*
- *rhoi hyfforddiant i staff a/neu gyfarfod â'r staff (lle y bo'n berthnasol).*

## Adran 7: Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd

*Yn yr adran hon, dylech ddisgrifio'r trefniadau goruchwylio a llywodraethu sydd ar waith i sefydlu a chynnal diwylliant* ***cadarnhaol a thosturiol*** sy'n sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni ar gyfer unigolion (neu yn achos gwasanaeth eirioli, y caiff anghenion yr unigolion am eiriolaeth eu diwallu). ***Dylai hyn hefyd gynnwys manylion am y ffordd rydych chi fel Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau yr eir i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny.***

*Dylai hyn gynnwys y trefniadau ar gyfer y canlynol:*

- ***Manylion o ran sut y byddwch yn annog diwylliant teg a chynhwysol ac yn rhoi dull seiliedig ar hawliau ar waith lle caiff hawliau'r unigolyn, gan gynnwys ei hawliau dynol, eu parchu.***
- *sut bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau ei fod yn goruchwylio trefniadau rheoli, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, gan gynnwys pa mor aml y bydd yn ymweld â'r gwasanaeth.*
- *strwythur rheoli'r gwasanaeth, llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb.*
- *y mesurau fydd yn cael eu defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth (neu yn achos gwasanaeth mabwysiadu neu wasanaeth eirioli, y mesurau fydd yn cael eu defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth hwnnw).*
- *trefniadau ar gyfer delio â chwynion*
- *trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y staff a rhanddeiliaid eraill er mwyn dylanwadu ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'i wella.*